








## Sut all rieni helpu?




-  Cysylltwch â'r ysgol yn brydlon ar fore cyntaf pob absenoldeb.
-  Ymdrechwch i drefnu apwyntiadau i weld y meddyg neu'r deintydd tu allan i oriau ysgol.
-  Anogwch eich plentyn i fynd i'r ysgol yn rheolaidd.
-  Cefnogwch yr ysgol i sicrhau bod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon bob bore.
-  Cysylltwch â'r ysgol i drafod unrhyw broblemau neu faterion sy'n dod i'r amlwg gyda'ch plentyn.
-  Canmolwch eich plentyn a gwobrwyo unrhyw gyraeddiadau yn yr ysgol.

### Gwyliau



Gofynnwn i bob rhiant am eu cefnogaeth lawn i sicrhau na chymerir gwyliau yn ystod y tymor ysgol. Mae yna gyfanswm o 175 diwrnod y flwyddyn pan nad oes ysgol a phan allwch chi gymryd gwyliau a threfnu ymweliadau a gweithgareddau teuluol eraill.

## Pam mae mor bwysig mynychu'r ysgol yn rheolaidd?

-  I gyflawni llawn botensial eich plentyn
-  I ddysgu a gwneud ffrindiau newydd
-  I ddatblygu amrediad eang o sgiliau newydd
-  I feithrin hyder a hunan-barch
-  I ddatblygu sgiliau cymdeithasol
-  I ddatblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill ac i fod yn rhan o gymuned ehangach

### Cofiwch

Rhowch y dechrau gorau posib i'ch plentyn mewn bywyd.

**Mae Pob Awr yn Cyfri'. Mae Pob Dydd yn Cyfri'**

**Am wybodaeth bellach, cysylltwch ag ysgol eich plentyn neu'ch Swyddog Lles Addysg lleol.**




### Gwasanaeth Lles Addysg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  
Pearl House  
Pont-y-pŵl  
Torfaen NP4 6YB  
☎ 01495 742559



## Cynllun Presenoldeb


**ANELU AM 95+%**



**Gwybodaeth am Bresenoldeb  
i Rieni**

# Presenoldeb yn yr Ysgol

Mae ein hysgol yn gweithio'n agos iawn gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg i hybu pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd.



Fel rhan o'n strategaeth presenoldeb, byddwn yn monitro patrymau presenoldeb yn yr ysgol, ac yn rhoi sylw iddynt, trwy Gynllun "ANELU AM 95+%". Cewch lythyr yn dweud beth yw "Parth Presenoldeb" eich plentyn ar ddiwedd pob tymor ysgol.

Dyma'r 3 pharth presenoldeb gwahanol:

Parthau	Trothwy Presenoldeb
Gwyrdd	Presenoldeb o 95% neu fwy
Oren	Presenoldeb rhwng 90% a 95%
Coch	Presenoldeb o dan 90%

Fel ysgol, felly, dymunwn gydweithio'n agos gyda rhieni i helpu a chefnogi pob disgybl i symud i mewn i'r Parth Gwyrdd, neu i aros yno.

# Parthau Goleuadau Traffig

Mae pob "Parth Presenoldeb" yn cynrychioli absenoldebau ar lefelau gwahanol.

## Y Parth Gwyrdd

Mae gan bob disgybl sydd yn y "Parth Gwyrdd" bresenoldeb o 95% neu fwy. Mae'r parth hwn yn cydnabod patrymau presenoldeb da i ragorol yn yr ysgol. Mae disgyblion o fewn y parth hwn yn fwy tebygol o lwyddo yn yr ysgol a chael canlyniadau da.

## Y Parth Oren

Mae gan bob disgybl yn y "Parth Oren" bresenoldeb rhwng 90 a 94.9%. Mae disgyblion â'r lefel yma o bresenoldeb yn destun pryder ac mewn perygl o dangyflawni yn yr ysgol.

## Y Parth Coch

Mae gan bob disgybl yn y "Parth Coch" bresenoldeb o dan 90%. Mae disgyblion sydd o fewn y parth hwn yn absennol o'r ysgol yn rheolaidd a thipyn yn llai tebygol o gyflawni eu potensial. Caiff disgyblion o'r fath eu monitro'n agos gan y Gwasanaeth Lles Addysg.

# Presenoldeb

Mae Absenoldeb yn Cyfri'

Presenoldeb Cyfanswm y Diwrnodau a Gollwyd

98%	Colli 4 diwrnod
96%	Colli 8 diwrnod
90%	Colli 20 diwrnod
85%	Colli 29 diwrnod
80%	Colli 38 diwrnod

## Cofiwch

Mae presenoldeb o 90% dros 5 mlynedd gyfwerth â hanner blwyddyn i ffwrdd o'r ysgol.

## Prydlondeb



Mae hefyd yn bwysig iawn cyrraedd yr ysgol ar amser bob dydd.

Wrth gyrraedd 5 munud yn hwyr bob bore a phrynhawn bydd eich plentyn yn colli 1 awr o ysgol bob wythnos neu ddiwrnod llawn bob tymor.

Mae bod ar amser yn cyfri'!